





Cylchlythyr - Croeso



Wrth i ni gyrraedd diwedd tymor prysur arall, roeddwn i eisiau dechrau cylchlythyr y tymor hwn trwy fynegi fy niolch i bob aelod o gymuned ein hysgol am bopeth rydych chi'n ei wneud i wneud yr ysgol yn le mor ysbrydoledig, cefnogol a llwyddiannus. Rydym yn parhau i arwain y ffordd o ran datblygu'r Cwricwlwm i Gymru newydd ac wedi croesawu nifer o ysgolion eraill i rannu'r pethau yr ydym yn eu gwneud yn y dosbarth. Rydym wedi croesawu criwiau teledu o ITV a'r BBC, wedi cael ymweliadau gan ein AS lleol a Llywodraeth Cymru a gofynnwyd i ni rannu ein gwaith ar ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg, arweinyddiaeth, addysgu ieithoedd ac 'asesu' ar draws y rhanbarth. Rydym yn parhau i fod yn un o'r unig ysgolion yng Nghymru i gadw'r 'Safon Iechyd Corfforaethol' ac rydym yn parhau i ddatblygu ein strategaethau cymorth ar gyfer myfyrwyr yn ein darpariaethau arbenigol – does ryfedd y byddwn yn llawn eto fis Medi 2023!!

Wrth gwrs, rydym hefyd yn falch iawn ein bod wedi llwyddo i ddarparu cymaint o gyfleoedd i bob myfyriwr ddatblygu eu diddordebau a'u sgiliau, ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Rydym yn adrodd hanes llawer o'r pethau hyn yn y cylchlythyr hwn, ond roeddem yn arbennig o falch o allu cynnal y daith sgïo gyntaf ers i'r pandemig ddechrau.




Bydd tymor yr haf yn sicr o gynnwys ffocws ar baratoi ar gyfer arholiadau – gan ddechrau, wrth gwrs, gyda'n Hysgol Adolygu'r Pasg ar gyfer blynyddoedd 11, 12 a 13 – ond rydym hefyd yn edrych ymlaen at groesawu Blwyddyn 6 i'n 'hwythnos bontio' unwaith eto, dychweliad mabolgampau a'n taith Wobrwyo flynyddol.

Rydyn ni'n gwybod pa mor bwysig yw'r rhain, a'r llu o bethau eraill sy'n digwydd yn yr ysgol ac o'i hamgylch, i chi – gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen amdanyn nhw wrth i chi ymlacio dros wyliau'r Pasg ac edrychwn ymlaen at rannu mwy o weithgareddau, newyddion a llwyddiannau dros yr haf.

Mwynhewch seibiant haeddiannol dros wyliau'r Pasg!

Pasg hapus!

Mr Gerrard
Pennaeth



Dyddiadau ar gyfer Eich Dyddiadur

Diwrnod olaf tymor y Pasg - Dydd Gwener 31 Mawrth 2023

Myfyrwyr yn dychwelyd i'r ysgol - Dydd Llun 17 Ebrill 2023

Gŵyl y Banc - Dydd Llun 1 Mai 2023

Noson Rieni Blwyddyn 8 - Dydd Mawrth 16 Mai 2023

Diwrnod olaf cyn hanner tymor - Dydd Gwener 26 Mai 2023

Myfyrwyr yn dychwelyd i'r ysgol - Dydd Llun 5 Mehefin 2023

Diwrnod Hyfforddi Staff - Dydd Gwener 23 Mehefin 2023

Diwrnod Hyfforddi Staff - Dydd Llun 3 Gorffennaf 2023

Noson Rhieni Blwyddyn 7 - Dydd Mawrth 11 Gorffennaf 2023

Diwrnod olaf y tymor cyn gwyliau'r haf - Dydd Iau 20 Gorffennaf 2023

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddyddiadau'r tymor a diwrnodau hyfforddi staff, edrychwch ar y calendr ar ein gwefan sy'n cwmpasu'r flwyddyn academaidd.

(<https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/cy/calendar/>)

Sesiynau Cefnogi Adolygu

Rydym hefyd yn falch iawn o allu cynnig y cyfle i fyfyrwyr fynychu sesiynau adolygu yn yr ysgol yn ystod gwyliau'r Pasg, o Ebrill 11 -15.

Edrychwch ar y wybodaeth ar ein tudalen we Cefnogi Arholiadau i ddarganfod mwy ac i weld yr amserlen ar gyfer y gwahanol grwpiau blwyddyn a chyrsgiau.

Mae'r dudalen hon hefyd yn cynnwys llawer o offer adolygu defnyddiol, dolenni ac awgrymiadau.

I weld yr amserlenni arholiadau haf diweddaraf ar gyfer arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch, ewch i'n tudalen we Arholiadau a Phrofi.

Dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd

Mae myfyrwyr Ysgol Aberconwy wedi mwynhau dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd am y tro cyntaf ers 2019! Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae myfyrwyr wedi cael y cyfle i ddathlu Blwyddyn Newydd Leuadol trwy sesiynau ar-lein a ddarparwyd gan diwtoriaid Sefydliad Confucius Caerdydd. O Ionawr 23ain ymlaen, fodd bynnag, fe wnaethom fwynhau wythnos o sesiynau trawsgwricwlaidd yn y dosbarth. Mynychodd myfyrwyr CA3 eu gwersi arferol ond gyda thema Tsieineaidd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys caligraffeg Tsieineaidd, dysgu Mandarin, torri papur, cwningod origami, cyfrifo arian Tsieineaidd, tai chi, coginio reis wedi'i ffrio ag wy, ysgrifennu creadigol, gwneud llusernau, dysgu am y fyddin Terracotta, daearyddiaeth Tsieina a goroesiad pandas.

Roeddem yn falch iawn o allu dathlu gyda'n hathro Tsieineaidd presennol, Mr Zigeng He. Buom hefyd yn ffodus iawn i gael Miss Qi Zhang i ymweld â ni o Ysgol Eirias. Rhannodd y ddau athro eu harbenigedd a'u gwybodaeth gyda myfyrwyr, gan gyflwyno sesiynau tai chi, origami a thorri papur.

Cafwyd wythnos o wasnaethau gan Zayna a Max [BI7] ac Ethan [BI8] yn tynnu sylw at ffeithiau allweddol a phwysigrwydd dathlu'r ŵyl Dsieineaidd hon. Roedd y tri myfyriwr yn glod i'w hunain wrth ymrwymo i'r gwasanaethau hyn am wythnos gyfan, a llwyddo i sefyll o flaen grŵp blwyddyn gwahanol bob dydd.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Celf Cwningod Sidydd ar gyfer pob Cyfnod Allweddol yn ogystal â phos Blwyddyn Newydd Tsieineaidd. Llongyfarchiadau i holl enillwyr ein cystadleuaeth!



Taith i Pontio



Yn ddiweddar bu myfyrwyr blwyddyn 12 a 13 sy'n astudio Cymraeg (Ail Iaith) Safon Uwch ar daith i Pontio ym Mangor i weld ffilm Gymraeg newydd o'r enw Y Sŵn. Mae'r ffilm yn dramateiddio stori wir am sut y sefydlwyd S4C yn dilyn ton o anufudd-dod sifil, wedi i Lywodraeth Prydain dorri addewid isefydlu sianel deledu Gymraeg.



Mwynhaodd y myfyrwyr y profiad hwn, a fydd hefyd o fudd i'w gwaith Safon Uwch, gan fod astudio hanes Cymru a'r Gymraeg ar draws y blynyddoedd yn rhan o'r maes llafur Safon Uwch. Roedd Mrs Williams a Mrs Parry wedi mwynhau hefyd!

Goreswr yr Holocost yn Rhannu ei Stori

Ddydd Llun 30 Ionawr cafodd myfyrwyr Hanes Blwyddyn 13 gyfle i wrando ar sgwrs gan Henry Schachter, a fu fyw trwy'r Holocost.

Gwrandawodd y myfyrwyr ar Henry yn siarad am sut y newidiwyd ei fywyd teuluol yn yr Almaen am byth ar ôl i'r Natsiaid ddod i rym yn yr Almaen ym 1933, a sut nad oedd gan ei fam unrhyw ddewis ond ei anfon i rywle y credai hi oedd yn lle diogel, Ffrainc, pan oedd yn ddim mwy na 5 oed. Collodd Henry ei fam a'i dad yn ystod yr Holocost, yn ogystal â llawer o berthnasau.

Braint wirioneddol oedd cael gwrandao ar stori Henry, a darlledwyd rhannau o'r sgwrs ar ITV Cymru yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Roedd ein disgyblion Chweched Dosbarth yn glod mawr iddyn nhw eu hunain ac i'r ysgol ac fe wnaethant i gyd elwa'n fawr o'r sgwrs.





Cyfarfod â Mererid



Bu myfyrwyr Cymraeg iaith gyntaf Blwyddyn 7 yn cymryd rhan mewn rhith-gyfarfod ar-lein gyda'r bardd, awdur a'r Athro Mererid Hopwood lle cawsant gyfle i ofyn cwestiynau iddi am y gerdd y buont yn ei hastudio o'i chasgliad – 'Fy Mabinogi i' a seiliwyd ar y straeon rhyddiaith Cymraeg cynharaf (chwedlau). Buont hefyd yn trafod pwysigrwydd y Gymraeg a dysgu ieithoedd cyn i'r myfyrwyr roi cynnig ar ysgrifennu eu stori fer eu hunain wedi'i hysbrydoli gan y chwedlau Cymreig yr oeddent wedi dysgu amdanynt.

Cefnogaeth gyda chostau hanfodion ysgol



Wrth i gostau byw godi, ni ddylai unrhyw blentyn fod mewn angen. Yng Nghymru, nid yw bron hanner y rhieni sydd â hawl i brydau ysgol am ddim i'w plant yn eu hawlio. Hoffem eich atgoffa o'r mathau o gymorth y gallech fod â hawl iddynt:

Peidiwch â cholli allan ar **brydau ysgol am ddim**.

Mae prydau ysgol yn hybu bwyta'n iach, yn cynyddu'r amrywiaeth o fwyd y gallai eich plentyn ei fwyta, a gall wella ymddygiad a sgiliau cymdeithasol. Os ydych yn derbyn budd-daliadau penodol, neu os yw eich amgylchiadau wedi newid, gwiriwch a oes gennych hawl i'r prydau trwy [Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#).

Gallai fod mwy o help ar gael drwy **Hanfodion Ysgol (Mynediad PDG)**. Gall helpu i dalu am bethau fel gwisg ysgol, esgidiau ysgol, cit chwaraeon, papur ysgrifennu ac offer arall. Os ydych yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, efallai y bydd gennych hawl i'r cyllid hwn.

Gallwch wirio hynny [yma](#).

(Sylwer, os ydych yn derbyn incwm penodol, bydd angen i rieni wneud cais ar wahân o hyd am Hanfodion Ysgol (Mynediad PDG) i gael mynediad at yr holl gyllid sydd ar gael)

Chwedlau Cymreig



Bu Myrddin ap Dafydd, awdur, cyhoeddwr a bardd Cymraeg yn ymweld ag Ysgol Aberconwy yn ddiweddar i gwrdd â'n myfyrwyr Cymraeg iaith gyntaf blwyddyn 7 er mwyn trafod rhai o'r chwedlau lleol sydd wedi'u cynnwys yn ei lyfr am chwedlau Cymreig o Ddyffryn Conwy.

Dysgodd y myfyrwyr am chwedl Llys Helig, palas Helig ap Glannawg a arferai sefyll rhywle rhwng Penmaenmawr, Llandudno ac Ynys Seiriol, ac a ddinistriwyd gan lifogydd mawr rywbryd yn y 6ed Ganrif.

Cawsant hefyd fwynhau clywed straeon am afanc angenfilaidd afon Conwy, Tylluan Cwm Cowlyd a oedd, yn ôl pob sôn, yn un o anifeiliaid hynaf y byd, a Santes Ffraid yng Nglan Conwy, a fwydodd y pentrefwyr newynog, fel rhan o'u hastudiaethau i chwedlau Cymru.

Archwilio Llwybrau Creadigol



Treuliodd grŵp o bedwar deg pump o fyfyrwyr o flwyddyn 9 y diwrnod yn Abergele yn archwilio llwybrau creadigol. Buont yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau megis colur llwyfan, sgiliau syrcau, golygu ffilmiau a dawnsio.

Eisteddfod Blwyddyn 7

Ddydd Mawrth, Chwefror 28ain, cynhaliwyd ein heisteddfod ryng-dŷ blwyddyn 7 unwaith eto. Gwelsom amrywiaeth eang o gystadlaethau ar y llwyfan, yn amrywio o gystadlaethau canu ac offerynnol i gyd-adrodd. Yn ogystal, gosodwyd tasgau gwaith cartref gan wahanol bynciau, a rhaid tynnu sylw yn benodol at bawb a fu'n cystadlu yn y coginio Ffrengig ac Almaenig – roedd y cwbl yn flasus iawn!

Uchafbwynt y diwrnod oedd seremoni draddodiadol y gadair a'r goron. Llongyfarchiadau i Seren am ennill cystadleuaeth y gadair am ysgrifennu chwedl wreiddiol ac i Daniel am gipio'r goron yn ogystal â chystadleuaeth medal dysgwr Cymraeg.

Enillydd y dydd gyda sgôr drawiadol o 328 pwynt oedd tŷ Llugwy, a byddwn yn gweld eu henw ar darian yr Eisteddfod am y tro cyntaf erioed!

Daeth y diwrnod i ben gyda'n gwestai arbennig a'n cyn-ddisgybl, Alistair James, yn canu Yma o Hyd ac Anthem Genedlaethol Cymru.



Pencampwr Codi Pwysau Cymru!

Llongyfarchiadau i Zach ym mlwyddyn 7 a amddiffynnod ei safle fel Pencampwr Codi Pwysau Cymru dan 12 oed yn ddiweddar, gan ei wneud yn bencampwr Cymru ddwywaith. Bellach ef yw pencampwr presennol Cymru a Phrydain yn ei categori a'i ddosbarth!

Dechreuodd Zach ymddiddori mewn codi pwysau pan ddechreuodd ei frawd hŷn hyfforddi yn y gamp. Pan oedd yn ddim mwy na saith oed, dechreuodd Zach hyfforddi gyda'i hyfforddwr Holly Knowles, sydd wedi cynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad. Mae bellach yn hyfforddi deirgwaith yr wythnos ac wedi cystadlu ledled Prydain.

Enillodd Zach ei gystadleuaeth gyntaf yn ystod cyfnod cloi Covid-19, pan enillodd gystadleuaeth codi pwysau Prydain ar-lein, gan godi pwysau gartref yn ei garej. Enillodd ei fedal gystadleuaeth gyntaf ym mhencampwriaethau Cymru, gan ddod yn ail pan oedd yn ddim mwy na 10 oed. Dilynwyd hyn gan fedal arian arall mewn cystadleuaeth arall yng Nghymru yn ddiweddarach y flwyddyn honno, gan arwain at ei dwrnamaint Prydeinig cyntaf, a medal arian arall.

Y llynedd enillodd bencampwriaethau Cymru ond ei gamp fwyaf hyd yma oedd pan enillodd Aur ym Mhencampwriaethau Prydain yn y categori dan 12 oed am ei ddosbarth pwysau ym mis Tachwedd 2022. Am gamp wych!

Mae ei lwyddiant diweddaraf wedi ei gymhwyso i ddychwelyd i Bencampwriaethau Prydain i amddiffyn ei deitl yn ddiweddarach eleni. Dymunwn y gorau i Zach yn y gystadleuaeth hon (a holl gystadlaethau'r dyfodol) a gobeithiwn y bydd yn sicrhau buddugoliaeth, gan ddychwelyd fel Pencampwr Prydain am yr ail dro.



Connections - Innocent Creatures



Mwynhaodd staff, rhieni a myfyrwyr 3 diwrnod o berfformiadau o'r ddrama *Innocent Creatures*. Bydd y criw yn perfformio'r ddrama yn Aberystwyth yn fuan.



Cystadleuaeth Poster Siarter Iaith

Mae'r ysgol wedi cychwyn ar ei thaith tuag at Wobr Efydd y Siarter Iaith. Mae'r Siarter Iaith yn Wobr Genedlaethol a ddyfernir i ysgolion yng Nghymru er mwyn eu llongyfarch ar eu defnydd o'r Gymraeg. Un o'r adnoddau yr oedd eu hangen er mwyn cyflawni Gwobr Efydd y Siarter Iaith oedd poster diddorol i annog staff a myfyrwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg o gwmpas yr ysgol.

Gwahoddwyd myfyrwyr o bob blwyddyn, felly, i gymryd rhan mewn cystadleuaeth gelf er mwyn dylunio'r poster gorau yn hyrwyddo gwahanol fathau o ymadroddion a negeseuon Cymraeg. Derbyniodd yr adran Gymraeg lawer o geisiadau gwych ond yn y diwedd penderfynwyd ar y tri enillydd teilwng canlynol.

Llongyfarchiadau i Daniel yn 8LLC a ddaeth yn gyntaf. Dyfarnwyd yr ail wobwr i Amelia yn 9DC a daeth Jensen yn 7HM yn drydydd.




Sgio yn Awstria

Cafwyd cyffro mawr ymhlith myfyrwyr, staff a rhieni fel ei gilydd wrth i ni gychwyn o'r ysgol ddiwedd mis Chwefror ar gyfer taith sgio gyntaf ysgol Aberconwy ers y pandemig. Aeth 81 o fyfyrwyr, yn amrywio o flwyddyn 8 hyd at flwyddyn 12, gyda 10 aelod o staff mewn dau fws i Hopfgarten im Brixental yn rhanbarth Ski Welt yn Awstria. Roeddem ni i gyd wedi bod yn gwyllo'r camerâu eira yn frwd yn y gyrchfan ac yn gwybod ein bod yn disgwyl dyddiau braf ar gyfer sgio, felly roeddem yn croesi'n bysedd y byddai'r eira'n parhau i fod yn dda.



Ni chawsom ein siomi. Roedd yno amrywiaeth eang o lethrau ar gyfer sgiwyr o bob gallu mewn cyrchfan a oedd yn cynnwys sawl man cychwyn o amgylch ardal fynyddig fawr. Cafodd yr holl fyfyrwyr eu herio, gan wella'u sgio o dan gyfarwyddyd rhagorol tywyswyr sgio lleol. Roedd yr haul yn gwenu a chafodd pawb amser gwych. Roedd ein gwesty yn



wirioneddol wych, gyda bwyd arbennig, ystafelloedd cyfforddus a staff cyfeillgar, cymwynasgar. Cynhaliwyd disgo ar ein cyfer un noson, gyda rhai staff a myfyrwyr yn gwisgo i fyny. Trefnwyd nosweithiau carioci a nosweithiau gemau yn y lolfa wych. Cawsom hwyl hefyd yn nofio yn Kitsbuel a byrddio gyda'r nos ar y llethr dysgwyr leol.

Fe wnaeth y myfyrwyr ymddwyn yn arbennig o dda, gan wneud y daith yn llawer o hwyl i bawb a gymerodd ran. Roedd staff y gwesty yn rhyfeddu bod pobl ifanc yn gallu clirio ar eu holau eu hunain amser bwyd ac wedi llwyddo i adael eu hystafelloedd fel pin mewn papur ar ddiwedd yr wythnos. Llongyfarchiadau enfawr i bob un o'r 81 o bobl ifanc a diolch yn fawr gan yr holl staff, a fwynhaodd eu cwmni yn fawr.



Dathlu Diwrnod Pi



Bu myfyrwyr dosbarth Mathemateg blwyddyn 7 Mr Geraint Simpson yn dathlu 'Diwrnod Pi' trwy astudio ychydig o hanes, gan ddysgu am y mathemategydd a'r athro a aned ym Môn, William Jones, y person cyntaf i ddefnyddio symbol i gynrychioli'r cysyniad platonig o pi. Yna dysgon nhw rai termau mathemategol Cymraeg yn gysylltiedig â pi a mynegi barn yn Gymraeg am fathemateg a phynciau eraill.

Plannu er mwyn y Blaned

Yn ddiweddar, mwynhaodd deuddeg o'n myfyrwyr blwyddyn 7 arhosiad dros nos ym Mod Silin, ein bwthyn sy'n swatio ym Mharc Cenedlaethol Eryri, gan ennill wobwr amgylcheddol. Enillasant Wobr John Muir, gwobr sy'n anelu at ddatblygu ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb dros yr amgylchedd naturiol trwy gyfrwng hwyl, antur ac archwilio, trwy gydweithio yn yr awyr agored a phlannu 42 o goed brodorol ar y cyd o fewn y parcdir.



Enillydd Eisteddfod Conwy

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod Erin ym mlwyddyn 9 wedi ennill yr Unawd i Ferched blwyddyn 7, 8 a 9 yn Eisteddfod Rhanbarthol Sir Conwy. Fel enillydd y categori hwn bydd hi nawr yn cynrychioli Sir Conwy yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gaerfyrddin. Rydym yn dymuno pob lwc iddi!



Cystadleuaeth: 15 - Unawd Merched Bl.7, 8 a 9

| Enw | Cangen | Canlyniad |
|---------------|---------------------|-----------|
| Erin Davies | Ysgol Aberconwy | 1af |
| Lois Owen | Ysgol Dyffryn Conwy | 2il |
| Lily Rowlands | Ysgol Y Creuddyn | 3ydd |



Urdd

Murlun i Orsaf Conwy



Mae myfyrwyr unwaith eto wedi ymuno ag Andy Birch (artist graffiti Dime One) i greu ail furlun gorsaf drenau yng ngorsaf reilffordd Conwy gyda'r nod o atal tresmasu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn gorsafoedd rheilffordd. Cafodd y myfyrwyr amser gwych ac mae'r canlyniad yn edrych yn wych!

Diolch i Trafnidiaeth Cymru am ariannu'r prosiect anhygoel hwn, ac i Heddlu Trafnidiaeth Prydain, ac wrth gwrs Dime One, am ei wneud yn brofiad gwych i bawb a gymerodd ran.

